# Adroddiad Ymgynghori ar Welliannau i Gyffordd Ffordd Patreane Heol Llanfihangel

**Mai 2024**

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion Cyngor Caerdydd i welliannau ar gyffordd Ffordd Patreane /Heol Llanfihangel. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 13 Tachwedd 2023 a 4 Rhagfyr 2023.

Roedd y gweithgareddau canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad i'w hyrwyddo ac i gael adborth gan y cyhoedd i lywio'r cynllun:


- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun;
- Hysbysiadau safle yn cael eu harddangos yng nghyffiniau'r cynllun;
- E-bost at ymgyngoreion statudol;
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor; ac
- Arolwg ar-lein (trwy wefan y Cyngor / dosbarthu llythyrau)

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafodd 66 o lythyrau eu hanfon at drigolion a busnesau'r ardal ger y cynnig hwn. At ei gilydd, derbyniwyd 2 ymateb drwy ddolen yr arolwg i'r ymgynghoriad. Byddai hyn yn awgrymu cyfradd ymateb o ryw 3% gan dybio bod y bobl a dderbyniodd lythyrau wedi cwblhau'r arolwg. Byddai hyn hefyd yn awgrymu nad oes gan tua 96% o bobl (na wnaeth ymateb) unrhyw wrthwynebiadau na barn ar y cynnig. Isod mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion.

Mae **Siart 1** isod yn dangos y canlyniadau i'r cwestiwn, "Ydych chi'n meddwl y gellid ychwanegu unrhyw fesurau ychwanegol i wella'r cynllun?".


**Siart 1**




O'r ymatebion a dderbyniwyd, gellir gweld bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r mesurau arfaethedig i wella'r gyffordd ond eu bod eisiau gweld mesurau ychwanegol yn cael eu hychwanegu, megis blwch melyn ar gyffordd Heol Llanfihangel gyda Ffordd Patreane.

Gofynnodd yr arolwg hefyd a fyddai'r ymatebwyr yn gweld bod y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TRO) newydd yn fuddiol.

**Siart 2**





Mae **Siart 3** yn dangos canlyniadau'r ymatebwyr, i'r cwestiwn "Ydych chi'n ddeiliad bathodyn glas".

**Siart 3**





Mae **Siart 4** yn dangos canlyniadau'r ymatebwyr, i'r cwestiwn "Ydych chi'n cael problemau traffig sy'n cael eu hachosi gan barcio rhwystrol ar y stryd ar Heol Llanfihangel?".

### Siart 4





Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn pam bod yr ymatebwyr yn teithio i'r ardal. Mae Siart 5 yn dangos y canlyniadau llawn.

### Siart 5




Mae Siart 6 yn dangos canlyniadau'r ymatebwyr, i'r cwestiwn "Sut ydych chi'n teithio yn yr ardal fel arfer?".

### Siart 6




Gofynnodd yr arolwg hefyd a yw'r ymatebwyr yn profi oedi gyda'r bysiau ar Heol Llanfihangel. Ni atebodd yr ymatebwyr y cwestiwn hwn, felly tybir nad ydynt yn defnyddio'r bws yn yr ardal hon. Gellir dweud yr un peth am y cwestiwn olaf yn yr arolwg oedd yn gofyn a oeddent wedi bod yn dyst i, neu wedi cael problemau ar Heol Llanfihangel fel cerddwr, na chafwyd atebion iddo.

O ganlyniad yr arolwg, gellir dod i’r casgliad bod yr ymatebwyr yn cefnogi’r mesurau arfaethedig.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion yn ysgrifenedig nac ar e-bost.

Mae adran nesa’r adroddiad hwn yn rhoi rhestr o sylwadau, safbwyntiau neu bryderon a godwyd gan yr ymatebwyr drwy gyfrwng yr arolwg, neu o sylwadau a dderbyniwyd. Mae rhai o'r safbwyntiau wedi'u crynhoi, ar y sail bod rhai safbwyntiau neu bryderon yn cael eu rhannu gan sawl ymatebwr. Hoffem eich sicrhau bod pob barn a dderbyniwyd wedi cael ei hystyried.

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rhoddir argymhellion a'r camau nesaf ar gyfer y cynnig.

## Sylwadau a godwyd

Ceir crynodeb isod o’r sylwadau a godwyd drwy'r ymgynghoriad, gydag ymateb y Cyngor.

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| ***Mae traffig ar Heol Llanfihangel yn achosi oedi wrth adael Ffordd Patreane...***<br><br>Crynodeb o’r Sylwadau | |
| *Ni fydd y cynnig troi i'r dde yn unig o Ffordd Patreane yn helpu mynediad i Heol Llanfihangel pan fydd rhes o draffig naill ai o Heol Llanfihangel a Heol y Bont-faen. Bydd ceisio mynd i mewn i'r lôn chwith i gael mynediad i Heol y Bont-faen o Ffordd Patreane yr un mor anodd. Bydd blwch melyn yn helpu i gael mynediad i Heol Llanfihangel yn ogystal â goleuadau ar Heol Llanfihangel i ganiatáu mynediad. Gan fod yr ystod wedi ehangu, mae'n cymryd hyd at 20 munud i fynd allan o'r gyffordd.* | O ran darparu blwch melyn, gallwn gadarnhau na fyddai blwch melyn yn briodol yn y lleoliad hwn. Mae hyn oherwydd nad yw cyffordd Ffordd Patreane yn gyffordd lle mae traffig yn cael ei reoli gan signalau, felly ni fyddai'r traffig ar Heol Llanfihangel yn aros i greu bwlch i gerbydau adael Ffordd Patreane. Ni all cerbydau aros ar flwch melyn oni bai bod yr allanfa yn glir; felly, bydd unrhyw gerbydau sy'n ciwio wrth y signalau traffig ar Heol Llanfihangel yn atal ffordd glir i gerbydau o Ffordd Patreane. |
| *Gwnewch hyn cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Mae'r traffig ar Heol Llanfihangel yn ein hatal rhag mynd allan o Ffordd Patreane ac yn achosi oedi wrth gyrraedd y gwaith. Rydym hefyd yn gofalu am berthynas oedrannus. Mae unrhyw alwad yn hanfodol o ran amser, sydd yn broblem pan na allwn adael Ffordd Patreane.* | Byddwn wrth gwrs yn monitro ar ôl gweithredu i benderfynu a oes angen unrhyw fesurau rheoli traffig pellach, unwaith y bydd defnyddwyr wedi dod yn gyfarwydd â chynllun newydd y ffordd. |

## Crynodeb o’r Ymgynghoriad

Anfonwyd tua 66 o lythyrau ymgynghori at drigolion a busnesau yn yr ardal ger y cynnig hwn, gyda 2 ymateb yn unig yn cael eu derbyn trwy arolwg ar-lein i'r ymgynghoriad. Byddai hyn yn awgrymu cyfradd ymateb o ryw 3% gan dybio bod y bobl a dderbyniodd lythyrau

wedi cwblhau'r arolwg. Byddai hyn hefyd yn awgrymu nad oes gan tua 96% o bobl (na wnaeth ymateb) unrhyw wrthwynebiadau na barn ar y cynnig.

Canlyniad yr arolwg ymgynghori yw bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y bydd y mesurau arfaethedig yn gwella mynediad iddynt adael Ffordd Patreane.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd o'r ymgynghoriad wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r mesurau arfaethedig;
- Mae hanner yr ymatebwyr o'r farn bod y mesurau TRO arfaethedig yn fuddiol; ac
- Mae'r ymatebwyr yn credu bod problemau traffig yn cael eu hachosi gan barcio rhwystrol ar Heol Llanfihangel.

## Argymhellion/ Camau Gweithredu

Argymhellir bod y cynllun yn mynd rhagddo yn unol â'r cynlluniau sydd wedi'u diweddaru sydd ynghlwm ar gyfer y cynllun, gyda'r camau gweithredu canlynol:

- Ystyried adborth yn y dyfodol i lywio'r dyluniad manwl; a
- Mwy o ystyriaeth o ran dylunio a thendro mewn perthynas â chanlyniad cais cynllunio Ailddatblygu Coleg blaenorol Llanfihangel.

## Camau a gymerwyd

- Fel rhan o'r gwaith ymchwilio i'r safle, nodwyd gwyriadau posibl i wasanaethau a allai ychwanegu costau sylweddol i'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu.
- Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o wyriadau i wasanaethau, datblygwyd ail opsiwn dylunio amgen.
- Bydd y trefniant amgen hwn yn cael ei ddatblygu ar y sail y bydd yn dal i fodloni nodau ac amcanion y prif gynllun, gyda llai o risg yn gysylltiedig â gwyriadau i wasanaethau.
- Mae'r dyluniad amgen hefyd yn cynnwys man croesi ychwanegol ar gyfer cerddwyr i'r gorllewin o'r fynedfa i'r siopau.
- Bydd y prosiect yn mynd rhagddo fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn gyda'r dyluniad amgen yn cael ei ddatblygu.

## Y Camau Nesaf

- Aros am ganlyniad y broses gynllunio ar gyfer datblygiad tai Coleg blaenorol Llanfihangel.
- Bydd y dyluniad yn cael ei ddatblygu gan ystyried yr ymgynghoriad hwn ac yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

# Atodiadau

## Atodiad 1- Dyluniad cysyniad Opsiwn 2

